




Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

Ionawr 2018

PC 48: Astudiaeth Deiliadaeth Tai Newydd

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Canfyddiadau'r astudiaeth.....	5
Ynglŷn â'r eiddo	5
Ble ydych chi'n byw rŵan / ble oeddech chi'n arfer byw	8
Pwy sy'n byw yn yr eiddo / Pwy oedd yn byw yn yr eiddo blaenorol?	13
Ynglŷn â symud i'r eiddo	17
Cost yr eiddo.....	20
Yr iaith Gymraeg	22
Nodyn ar dai Gofal Ychwanegol ac eiddo ymddeol eraill	25
Cymariaethau gydag arolwg deiliadaeth newydd 2011	26
Holiadur tai newydd.....	33

Cyflwyniad

Comisiynwyd yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan y Tîm Polisi Cynllunio Strategol i gynnal arolwg o'r bobl sy'n byw mewn anheddau newydd a adeiladwyd ym Mwrdeistref Sirol Conwy rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2017.

The Council is currently reviewing the Local Development Plan as adopted in August 2013 to guide future development in Conwy County Borough. The results of the new housing occupancy survey will provide information to help us assess the future need for facilities such as schools, libraries, GP surgeries, retail facilities, and leisure centres, as well as helping to shape understanding of future housing need.

Casglodd yr arolwg wybodaeth hefyd am sgiliau iaith Cymraeg preswylwyr tai newydd i helpu i ddeall effaith bosibl datblygiad newydd ar gymunedau Cymraeg eu hiaith yn yr ardal.

Er bod yr adroddiad hwn yn edrych ar nodweddion preswylwyr tai â godwyd o'r newydd, nid oes modd cynnig sylwadau ar y modd y mae'r nodweddion hyn yn wahanol i'r rhai ar gyfer yr holl aelwydydd sydd wedi symud o fewn neu i mewn i'r ardal dros yr un cyfnod, gan nad ydym wedi cynnal arolwg ar holl breswylwyr yr aelwydydd sydd wedi symud. Lle bod modd cymharu, mae ond yn bosibl gwneud hynny mewn perthynas â holl boblogaeth breswyl Bwrdeistref Sirol Conwy, ac felly mae ond yn rhoi darlun rhannol o effaith tai a godwyd o'r newydd ar y farchnad dai ehangach.

Ym mis Medi a mis Hydref 2017 anfonwyd holiaduron drwy'r post i bob annedd roedd Asiantaeth y Swyddfa Brisiog a Mynegai Tir ac Eiddo Bwrdeistref Sirol Conwy wedi eu cofnodi fel rhai a adeiladwyd o'r newydd neu a drawsnewidiwyd i ddefnydd preswyl rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2017.

O'r 803 o holiaduron a ddosbarthwyd yn llwyddiannus, dychwelwyd 273 wedi'u llenwi. Mae hyn yn rhoi cyfradd ymateb o 34%, sy'n gyfradd ymateb resymol ar gyfer arolwg o'r math hwn. Er hynny, ni atebwyd yr holl gwestiynau gan bob un o'r aelwydydd a ymatebodd – nodir yr ymatebion na roddwyd yn y tablau data.

Anfonwyd yr arolwg yn ddwyieithog. Llenwyd 1% o'r holiaduron yn y Gymraeg.

Cyflwynir canlyniadau'r arolwg isod. Cyflwynir dadansoddiad byr o'r canfyddiadau, yn ogystal â data o'r arolwg ar ffurf tablau a graffiau.

Mae'r rhan fwyaf o dablau data yn yr adroddiad hwn yn cynnwys dwy ganran. Y prif ddadansoddiad yw nifer yr ymatebwyr a'r ganran o'r rhai hynny a atebodd y cwestiwn penodol ac oni bai y nodir fel arall, dyma'r ffigur a ddyfynnir yn y dadansoddiad ysgrifenedig. Y ganran arall a gyflwynir yn y tablau data yw nifer yr ymatebwyr fel canran o gyfanswm yr ymatebion i'r arolwg (fel canran o 273).

Mae copi o holiadur yr arolwg ar gael yn yr atodiadau.


Noder: Lluniwyd y ddogfen hon yn wreiddiol fis Ionawr 2018 ac fe'i diwygiwyd fis Awst 2019.

Canfyddiadau'r astudiaeth

Ynglŷn â'r eiddo

C1a: Pryd gafodd eich eiddo ei adeiladu / addasu?

	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion
2011	12	4.8%	4.4%
2012	46	18.3%	16.8%
2013	85	33.9%	31.1%
2014	98	39.0%	35.9%
2015	5	2.0%	1.8%
2016	1	0.4%	0.4%
2017	4	1.6%	1.5%
Cyfanswm ymatebion	251	100.0%	91.9%
Dim ymateb	22		8.1%




Cafwyd 251 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 91.9%. Roedd yn gwestiwn ysgrifennu i mewn.

Mae nifer isel yr ymatebion ar gyfer eiddo a godwyd yn y cyfnod 2015 i 2016 yn ganlyniad i natur ar hap y rhai hynny sy'n ymateb i'r mathau hyn o arolygon drwy'r post yn hytrach nac yn adlewyrchiad ar yr hyn a godwyd yn ystod y blynyddoedd hyn. Byddai disgwyl i'r ffigyrau ar gyfer 2017 fod yn isel gan fod yr arolwg ond yn cynnwys eiddo a fydd wedi eu cwblahu yn ystod 'tymor tawel' blynyddol misoedd y gaeaf 2017 (cwblhawyd cyn 1 Ebrill y flwyddyn honno).

C1b: Pryd wnaethoch chi symud i'r eiddo?

	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion
2011	8	3.0%	2.9%
2012	31	11.5%	11.4%
2013	60	22.3%	22.0%
2014	84	31.2%	30.8%
2015	31	11.5%	11.4%
2016	25	9.3%	9.2%
2017	30	11.2%	11.0%
Cyfanswm ymatebion	269	100.0%	98.5%
Dim ymateb	4		1.5%



Cafwyd 269 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 98.5%. Roedd yn gwestiwn ysgrifennu i mewn.

C1c: Ai chi yw preswlydd cyntaf yr eiddo?

	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion
Ie	210	77.2%	76.9%
Na	62	22.8%	22.7%
Cyfanswm ymatebion	272	100.0%	99.6%
Dim ymateb	1		0.4%

Cafwyd 272 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 99.6%. Roedd yn gwestiwn un dewis.


Hyd yn oed yn achos eiddo a godwyd yn ddiweddar, mae rhywfaint o drosiant yn y stoc tai. Mae 22.7% o'r eiddo wedi cael mwy nac un set o breswylwyr.

Ar gyfer pobl sy'n breswylwyr cyntaf, symudodd 93.6% o fewn blwyddyn i'r eiddo gael ei godi/ trawsnewid.

Mae pobl nad oeddent y bobl gyntaf i fyw mewn eiddo ychydig yn llai tebygol i fod wedi rhoi ateb ynghylch dyddiad adeiladu/ trawsnewid gwreiddiol eu cartref (gweler C1a).

C1d: Ydych chi'n prynu am y tro cyntaf?

	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion
Ydw	27	10.0%	9.9%
Nac ydw - berchen ar yr eiddo	155	57.4%	56.8%
Nac ydw - gymdeithas tai	45	16.7%	16.5%
Nac ydw - landlord preifat ac arall	43	15.9%	15.8%
Cyfanswm ymatebion	270	100.0%	98.9%
Dim ymateb	3		1.1%



Cafwyd 270 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 98.9%. Roedd yn gwestiwn un dewis.

Nid perchnogion cartrefi tro cyntaf sy'n preswyllo yn y rhan fwyaf o'r eiddo newydd. Dim ond 10% o'r ymatebwyr oedd yn prynu am y tro cyntaf.

Ble ydych chi'n byw rŵan / ble oeddech chi'n arfer byw


C2a: Ym mha fath o eiddo ydych chi'n byw rŵan?

	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion
Tŷ ar-wahân	84	30.9%	30.8%
Tŷ lled ar-wahân	33	12.1%	12.1%
Tŷ teras	23	8.5%	8.4%
Fflat	106	39.0%	38.8%
Byngalo	19	7.0%	7.0%
Arall	7	2.6%	2.6%
Cyfanswm ymatebion	272	100.0%	99.6%
Dim ymateb	1		0.4%

Cafwyd 272 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 99.6%. Roedd yn gwestiwn un dewis.

Mae cyfran uchel o ymatebwyr (106 neu 39%) wedi symud i fflatiau newydd a'r gyfran fwyaf ar ôl hynny oedd y rhai a symudodd i fyw mewn tai newydd ar-wahân (84 neu 30.9%). Mae hyn yn debyg o adlewyrchu'r math o dai newydd sydd ar gael, o leiaf i'r un graddau â dewis y preswylwyr.

Roedd bron i ddau draean o breswylwyr fflatiau newydd mewn llety ar rent (roedd tri neu bedwar o'r rhain mewn tai cymdeithasol). Roedd mwyafrif y llety rhent cymdeithasol mewn fflatiau yn ymatebwyr sydd wedi symud i fflatiau pwrpasol sy'n cynnig y dewis o ofal cymdeithasol i bobl hŷn.



C2b: Ym mha fath o eiddo oeddech chi'n arfer byw ynddo?

	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion
Tŷ ar-wahân	72	27.4%	26.4%
Tŷ lled ar-wahân	68	25.9%	24.9%
Tŷ teras	22	8.4%	8.1%
Fflat	45	17.1%	16.5%
Byngalo	46	17.5%	16.8%
Arall	10	3.8%	3.7%
Cyfanswm ymatebion	263	100.0%	96.3%
Dim ymateb	10		3.7%

Cafwyd 263 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 96.3%. Roedd yn gwestiwn un dewis.

Roedd dros chwarter yr holl symudiadau (26.2%) neu 69 o ymatebwyr wedi symud o dai i fflatiau, gan ymwneud yn bennaf â symud o fflatiau Gofal Ychwanegol i fflatiau ymddeol. Symudodd 12.9% o ymatebwyr o dai ar-wahân i dŷ ar-wahân arall a symudodd 9.6% o dai pâr i dai ar-wahân. Mae hyn yn debyg o adlewyrchu'r math o dai newydd sydd ar gael, o leiaf i'r un graddau â dewis y preswylwyr.

C3a: Faint o ystafelloedd gwely sydd yn eich eiddo presennol?


	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion
1 ystafell wely	32	11.9%	11.7%
2 ystafell wely	107	39.8%	39.2%
3 ystafell wely	73	27.1%	26.7%
4 ystafell wely	50	18.6%	18.3%
5+ ystafell wely	7	2.6%	2.6%
Cyfanswm ymatebion	269	100.0%	98.5%
Dim ymateb	4		1.5%

Cafwyd 269 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 98.5%. Roedd yn gwestiwn ysgrifennu i mewn.

C3b: Faint o ystafelloedd gwely oedd yn eich eiddo blaenorol?

	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion
1 ystafell wely	31	11.8%	11.4%
2 ystafell wely	73	27.8%	26.7%
3 ystafell wely	95	36.1%	34.8%
4 ystafell wely	47	17.9%	17.2%
5+ ystafell wely	17	6.5%	6.2%
Cyfanswm ymatebion	263	100.0%	96.3%
Dim ymateb	10		3.7%

Cafwyd 263 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 96.3%. Roedd yn gwestiwn ysgrifennu i mewn.



Symudodd y gyfran uchaf o ymatebwyr (36.6%) i eiddo gyda'r un nifer o ystafelloedd gwely â'u llety blaenorol. Symudodd 35.9% o'r ymatebwyr i eiddo gyda llai o ystafelloedd gwely, a symudodd 27.5% i eiddo newydd gyda mwy o ystafelloedd gwely.

Y symudiad mwyaf cyffredin o ran y nifer o ystafelloedd gwely oedd o eiddo tair ystafell wely i eiddo dwy ystafell wely (13.4%), o eiddo dwy ystafell wely i eiddo eraill dwy ystafell wely (13.0%), ac o eiddo tair ystafell wely i eiddo eraill tair ystafell wely (12.2%).

C4a: Ydych chi'n: (deiliadaeth presennol)

	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion
Berchen ar yr eiddo	183	67.3%	67.0%
Rhentu'r eiddo gan landlord preifat	36	13.2%	13.2%
Rhentu'r eiddo gan gymdeithas tai neu'r Cyngor	49	18.0%	17.9%
Byw yn yr eiddo dan unrhyw drefniant arall	4	1.5%	1.5%
Cyfanswm ymatebion	272	100.0%	99.6%
Dim ymateb	1		0.4%

Cafwyd 272 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 99.6%. Roedd yn gwestiwn un dewis.

Roedd dau draean o eiddo newydd yn eiddo i berchnogion preswyl. Rentiwyd ychydig llai na un o bob pump gan landlordiaid cymdeithasol. Dangosir ffigyrau deiliadaeth o amcangyfrifon diweddaraf Llywodraeth Cymru o stoc eiddo er cymhariaeth.

Amcangyfrifon cyfanswm y stoc anheddau ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy – deiliadaeth

Ffynhonnell: Amcangyfrifon stoc anheddau yn ôl awdurdod lleol a deiliadaeth 2015/16, Llywodraeth Cymru

	Nifer	%
Yn berchen ar yr eiddo	40,350	70.7%
Yn rhentu'r eiddo gan landlord preifat	10,600	18.5%
Yn rhentu'r eiddo gan landlord cymdeithasol	6,150	10.8%
Cyfanswm y stoc anheddau	57,050	

Ni ellir dweud a gafodd yr eiddo hynny sydd wedi eu rhentu'n breifat eu prynu'n newydd fel eiddo prynu i'w gosod. Fodd bynnag, preswylwyr cyntaf yr eiddo hynny sydd ar hyn o bryd yn preswyllo mewn tua thraean o'r eiddo hynny, sy'n awgrymu'n gryf eu bod wedi eu prynu fel eiddo buddosddi yn hytrach nac fel cartref i'r perchennog.

C4b: Oeddech chi'n: (deiliadaeth blaenorol)

	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion
Berchen ar yr eiddo	168	65.4%	61.5%
Rhentu'r eiddo gan landlord preifat	55	21.4%	20.1%
Rhentu'r eiddo gan gymdeithas tai neu'r Cyngor	16	6.2%	5.9%
Byw yn yr eiddo dan unrhyw drefniant arall	18	7.0%	6.6%
Cyfanswm ymatebion	257	100.0%	94.1%
Dim ymateb	16		5.9%


Cafwyd 257 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 94.1%. Roedd yn gwestiwn un dewis.

Nid oedd y rhan fwyaf o bobl yn newid daliadaeth wrth symud i'w heiddo newydd (70%) – mae 56% o'r ymatebwyr yn berchnogion preswyl rŵan ac yn eu heiddo blaenorol.

Daeth y symudiadau mwyaf gan rentwyr preifat a oedd yn dod yn berchnogion preswyl neu'n symud i lety rhent cymdeithasol (8.2% ym mhob categori).

Bu gostyngiad amlwg yn y nifer o ymatebwyr oedd yn byw yn eu heiddo blaenorol dan drefniant arall ond nad ydynt yn gwneud hynny rŵan. Mae hyn i'w ddisgwyl gan fod 'trefniant arall' yn cynnwys byw gyda rhieni/theulu neu ffrindiau, ac mae dros hanner y rhai oedd yn arfer byw dan 'drefniant arall' wedi symud a phrynu eu heiddo newydd.

Roedd y prynwyr tro cyntaf a atebodd y cwestiwn hwn (23 ymateb) i gyd wedi dod o'r sector rhentu preifat neu'n arfer byw dan drefniant arall (sy'n tueddu i fod yn byw'n bennaf gyda theulu neu ffrindiau). Nid oedd un o'r rhain yn denantiaid tai cymdeithasol.



Er bod y niferoedd yn eithaf bychan ac y dylid felly bod yn ofalus wrth drafod unrhyw ddadansoddiad, roedd oddeutu hanner yr ymatebwyr a oedd wedi symud i dai Gofal Ychwanegol (sy'n ddaliadaeth rhent cymdeithasol) yn arfer bod yn berchen ar eu cartref eu hunain.

Pwy sy'n byw yn yr eiddo / Pwy oedd yn byw yn yr eiddo blaenorol?

C5a: Faint o bobl sy'n byw yn yr eiddo?

Maint yr aelwyd	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion
Aelwyd 1 person	100	37.3%	36.6%
Aelwyd 2 berson	101	37.7%	37.0%
Aelwyd 3 pherson	23	8.6%	8.4%
Aelwyd 4 person	36	13.4%	13.2%
Aelwyd 5 person	4	1.5%	1.5%
Aelwyd 6 person	4	1.5%	1.5%
Cyfanswm ymatebion	268	100.0%	98.2%
Dim ymateb	5		1.8%
Maint cyfartalog yr aelwydydd (personnau)	2.09		0.8%


Cafwyd 268 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 98.2. Cyfres o gwestiynau ysgrifennu i mewn oedd hon a ofynnodd am grŵp oedran holl aelodau'r cartref. Darparwyd gwybodaeth ar gyfer cyfanswm o 559 o bobl.

Maint cyfartalog yr aelwydydd yn yr anheddau newydd yw 2.09 unigolyn. Mae hyn yn cymharu gyda maint aelwyd cyfartalog o 2.17 yn yr amcangyfrif aelwydydd diweddaraf ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy gan Lywodraeth Cymru (amcangyfrif canol-blwyddyn 2016). Gallai maint llai aelwydydd mewn eiddo newydd a adeiladwyd fod yn adlewyrchiad ar faint/ y math o eiddo sy'n cael eu hadeiladu (mwy o fflatiau ymddeol a Gofal Ychwanegol gyda dim ond un neu ddwy ystafell wely – gweler C3 i gael rhagor o fanylion am nifer yr ystafelloedd gwely).

C5b: Faint o bobl oedd yn byw yn eich eiddo blaenorol?

Maint yr aelwyd	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion
Aelwyd 1 person	57	22.4%	20.9%
Aelwyd 2 berson	102	40.2%	37.4%
Aelwyd 3 pherson	52	20.5%	19.0%
Aelwyd 4 person	30	11.8%	11.0%
Aelwyd 5 person	10	3.9%	3.7%
Aelwyd 6 person	3	1.2%	1.1%
Cyfanswm ymatebion	254	100.0%	93.0%
Dim ymateb	19		7.0%
Maint cyfartalog yr aelwydydd (personnau)	2.38		

Cafwyd 254 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 93%. Cyfres o gwestiynau ysgrifennu i mewn oedd hon a ofynnodd am grŵp oedran holl aelodau'r cartref. Darparwyd gwybodaeth ar gyfer cyfanswm o 605 o bobl.



Ar gyfartaledd, roedd mwy o bobl fesul aelwyd mewn eiddo blaenorol nac yn y cartrefi newydd. Mae hyn yn bennaf gan fod nifer sylweddol uwch o aelwydydd un person yn yr eiddo newydd nac yn llety blaenorol yr ymatebwyr. Symudodd chwarter yr aelwydydd un person 'newydd' – 10 o'r 41 – oherwydd newydd yn statws y teulu (ysgariad, gwahanu, profedigaeth), sy'n helpu egluro'r gwahaniaeth.

Yn ogystal â'r symud i ragor o aelwydydd un person, gall cyfnodau eraill mewn bywyd sy'n arwain i aelwydydd llai o faint yn gallu cynnig y cymhelliant i symud i lety newydd – er enghraifft, gall plant wedi tyfu i fyny sy'n gadael cartref arwain at ffurfio dwy neu ragor o aelwydydd newydd llai o faint. Mae hyn hefyd yn debygol o gael effaith ar y newid ym maint cyfartalog aelwydydd rhwng eiddo blaenorol a phresennol.


Bydd cyfran uchel y tai gofal ychwanegol ac eiddo ymddeol eraill o fewn cyfanswm y cartrefi newydd hefyd wrth gwrs yn cael effaith o ran 'lleihau maint' y math o eiddo a maint yr aelwyd.

Oed trigolion eiddo newydd

Aelodau'r aelwyd	Cartref presennol		Cartref blaenorol	
	Nifer	%	Nifer	%
0-16 oed	111	19.9%	89	14.7%
17-24 oed	22	3.9%	52	8.6%
25-34 oed	61	10.9%	62	10.2%
35-49 oed	101	18.1%	111	18.3%
50-64 oed	98	17.5%	127	21.0%
65-74 oed	90	16.1%	84	13.9%
75-84 oed	53	9.5%	55	9.1%
85+ oed	23	4.1%	25	4.1%
Cyfanswm y bobl	559	100.0%	605	100.0%

Mae'r ymchwydd yn y grŵp oedran 0-16 (plant) y gwelwyd yn y data ar gyfer cartref presennol yn cyfeirio at un o'r prif resymau sydd gan bobl dros symud i gartref newydd - dechrau teulu neu gynyddu maint eu teulu. Cyfeiriodd dros hanner yr aelwydydd hynny a oedd yn cynnwys plant at 'Anngen i symud i lety mwy o faint' fel

eu prif reswm dros symud tŷ. Yn gyffredinol, mae teuluoedd ac unigolion ieuengach yn fwy tebygol o symud tŷ.




Mae hefyd ymchwydd yn y grŵp oedran 65-74 o'u cymharu â chyfanswm y boblogaeth a rhan o lety, sydd mwy na thebyg yn sgil y gyfran uchel o ymatebion gan bobl mewn llety Gofal Ychwanegol ac ymddeoliad.

Gallai'r cwmp yn nghyfran yr aelwydydd mewn llety newydd sy'n cynnwys pobl 17-24 oed fod yn ddangosiad o'r ffaith mai dyma'r grŵp oedran lle mae pobl ifanc yn gadael y cartref teuluol, gan efallai arwain at i'r rhieni symud i eiddo newydd. Ni fyddai'r aelwydydd newydd hyn y byddai'r bobl 17-24 oed 'coll' hyn yn eu ffurfio o reidrwydd yn cael eu cynrychioli yn yr arolwg hwn, gan ei bod yn annhebyg y gallant fod yn berchnogion preswyl na rhentu eiddo newydd yn breifat, ac ni fyddent chwath yn dueddol o fod yn gymwys am dai cymdeithasol blaenoriaeth (nac am denantiaeth mewn eiddo Gofal Ychwanegol neu ymddeoliad).

C6: Faint o oedolion yn yr aelwyd sy'n gweithio ar hyn o bryd?

	Pobl mewn gwaith	
	Nifer	%
Amser llawn BS Conwy	106	51.5%
Rhan amser BS Conwy	28	13.6%
Amser llawn rhywle arall	62	30.1%
Rhan amser rhywle arall	10	4.9%
Cyfanswm y bobl mewn gwaith	206	100.0%

Roedd 124 ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda chyfradd ymatebion cyffredinol o 45.4% a chyfradd ymatebion o 73.8% ar gyfer pob aelwyd a oedd ag unrhyw aelodau yn y grŵp oedran 16-64 (i gyfateb ag oedran gweithio). Roedd hwn yn gyfres o gwestiynau ysgrifennu i mewn a oedd yn holi sawl aelod o'r aelwyd oedd yn gweithio'n llawn amser neu'n rhan amser, ac a oeddent yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Conwy neu yn rhywle arall. Darparwyd gwybodaeth ar gyfer cyfanswm o 206 o bobl.




At ei gilydd, roedd 65% o'r bobl a atebodd y cwestiwn hwn yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae hyn yn golygu fod 35% yn gweithio'n rhywle arall. Mae hyn yn uwch na'r amcangyfrifon dwieddaraf ar gyfer cyfraddau allgymudo, sy'n amcangyfrif fod 27.1% o'r boblogaeth yn teithio allan o'r ardal i weithio (Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2015, y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Mae hyn yn awgrymu fod pobl sy'n byw mewn tai newydd yn fwy tebygol o weithio tu allan i'r ardal na'r boblogaeth yn gyffredinol.

Ar lefel aelwyd, roedd gan 76% o'r aelwydydd a ymatebodd i'r cwestiwn hwn o leiaf un person yn gweithio o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy.

Ynglŷn â symud i'r eiddo

C7a: Ble oeddech chi'n byw ddiwethaf cyn i chi symud i'r eiddo hwn?

	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion
Rhywle arall ym Mwrdeistref Sirol Conwy	173	63.6%	63.4%
Rhywle arall yng Ngogledd Cymru	45	16.5%	16.5%
Rhywle arall yng Nghymru	4	1.5%	1.5%
Rhywle arall yn y DU	47	17.3%	17.2%
Tu allan i'r DU	3	1.1%	1.1%
Cyfanswm ymatebion	272	100.0%	99.6%
Dim ymateb	1		0.4%



Cafwyd 272 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 99.6%. Roedd yn gwestiwn un dewis.

Symudodd bron i ddau draean o'r aelwydydd a symudodd i eiddo newydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy o fewn y Fwrdeistref Sirol. Roedd 18% wedi byw mewn rhan arall o Gymru, yn bennaf yng Ngogledd Cymru.

O'r rhai a symudodd o'r tu allan i Gymru, roedd ymhell dros hanner yn dod o siroedd yn Lloegr sy'n ffinio â Chymru (roedd 17 o'r 43 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn dod o Ogledd-orllewin Lloegr, ac roedd wyth arall yn dod o Orllewin Canolbarth Lloegr).

C7b: Os wnaethoch chi symud o'r tu allan i Gymru, ydych chi erioed wedi byw ym Mwrdeistref Sirol Conwy neu Chymru?


Roedd ychydig mwy na hanner y rhai a atebodd y cwestiwn hwn wedi byw yng Nghymru'n flaenorol. Mae hyn yn golygu, o'r 259 o ymatebwyr a atebodd y ddwy ran o'r cwestiwn 'ble oeddech chi'n arfer yw', roedd 182 (70.3%) wedi byw ym Mwrdeistref Sirol Conwy ar ryw adeg, ac roedd cyfanswm o 53 (20.5%) wedi byw mewn rhan arall o Gymru.

	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion i C7a
Wedi byw ym Mwrdeistref Sirol Conwy	9	24.3%	3.5%
Wedi byw rhywle arall yng Nghymru	4	10.8%	1.5%
Heb fyw yng Nghymru	24	64.9%	9.3%
Cyfanswm ymatebion	37	100.0%	
Dim ymateb	17		

Dim ond 9.3% o'r ymatebwyr nad oedd wedi byw yng Nghymru cyn symud i'w cartref newydd, a oedd yn gyfanswm o 24 o ymatebwyr. Dangosodd dadansoddiad o'r prif reswm dros symud ar gyfer yr ymatebwyr hyn fod tri wedi symud i'r ardal am resymau cyflogaeth, ac roedd saith wedi symud i fod yn nes at berthnasau, sy'n dangos y posibilrwydd fod cysylltiad â'r ardal. Nododd 13 o'r ymatebwyr i'r cwestiwn (4.8%) mai ymddeol i'r ardal oedd y prif reswm dros symud. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r rhesymau dros symud ar gael yn C8 isod.

C8: Beth oedd eich prif reswm dros symud?

	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion
Newid swydd/symud yn agosach i'r swydd	22	8.1%	8.1%
Wedi ymddeol i'r ardal	38	14.0%	13.9%
Angen symud i lety mwy	42	15.5%	15.4%
Angen symud i lety llai	53	19.6%	19.4%
Newid mewn statws teuluol (priodi, ysgaru ac ati)	37	13.7%	13.6%
Er mwyn bod yn agosach at berthnasau	32	11.8%	11.7%
Arall	95	35.1%	34.8%
Cyfanswm ymatebion	271	100.0%	99.3%
Dim ymateb	2		0.7%



Cafwyd 271 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 99.3%. Roedd yn gwestiwn amlddewis sy'n golygu y gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb, felly ni fydd y canrannau'n ychwanegu at 100%.

Gofynnwyd i bobl a oedd wedi ticio'r categori ymateb 'arall' i roi rhagor o fanylion. O'r ymatebion ysgrifenedig hyn, symudodd 16 o ymatebwyr oherwydd materion yn ymwneud â'u hiechyd neu ddymuniad i symud i dai â chymorth/ Gofal Ychwanegol, a oedd yn bron i 10% o'r holl ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Symudodd 12 o ymatebwyr er mwyn bod yn berchen ar eu cartref ac roedd chwech yn symud o gartref eu rhieni i sefydlu eu haelwyd eu hunian. Roedd rhai o'r ymatebion ysgrifenedig yn cynnwys symud yn nes at amwynderau, i symud er mwyn cael gardd / lle parcio a symud am resymau ariannol.

C9: A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref anabledd sy'n effeithio ar eich dewis o dai?

	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion
Oes	56	22.6%	20.5%
Nac oes	185	74.6%	67.8%
Ddim am ddweud	7	2.8%	2.6%
Cyfanswm ymatebion	248	100.0%	90.8%
Dim ymateb	25		9.2%

Cafwyd 248 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 90.8%. Roedd yn gwestiwn un dewis. Mae hon yn gyfradd ymateb gymharol isel o'i chymharu â chwestiynau eraill yn yr arolwg, a allai fod yn sgil natur sensitif cwestiynau ynglŷn ag anabledd.

Nododd mwy na un o bob pump o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn fod anabledd yn effeithio ar eu dewisiadau tai.

Roedd deg ymateb ychwanegol na wnaeth nodi fod anabledd yn effeithio ar eu dewisiadau tai ond a nododd mai gofynion ieuchyd/ anabledd/ gofal oedd y prif reswm dros symud (gweler C8 uchod).


Roedd pobl a oedd wedi symud i dai Gofal Ychwanegol neu eiddo ymddeol eraill yn arbennig o debygol o fod ag anabledd a oedd wedi effeithio ar eu dewisiadau tai – ymatebodd 14 o'r 21 o ymatebwyr mewn tai gofal ychwanegol 'oes' ar gyfer y cwestiwn hwn (66.6%). O'r bobl hynny a symudodd i lety ymddeoliad, ymatebodd 21 o'r 47 (44.7%) 'oes' i'r cwestiwn hwn.

Cost yr eiddo

Gofynnwyd dau gwestiwn am gost tai – un ynglŷn â phris prynu ar gyfer perchnogion preswyl ac un ynglŷn â rhent misol ar gyfer y rhai hynny a oedd yn rhentu eu cartref. At ei gilydd, atebodd 238 o ymatebwyr y cwestiynau hyn, a oedd yn gyfradd ymateb o 87.2%. Dyma'r gyfradd ymateb isaf ar gyfer holl gwestiynau'r arolwg, a allai fod yn sgil natur sensitif cwestiynau ynglŷn â chyllid.

C10: Beth oedd cost y tŷ pan wnaethoch ei brynu?

	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % berchnogion preswyl (C4)	Fel % yr holl ymatebion
Llai na £100,000	8	4.6%	4.4%	2.9%
Rhwng £100,001 a £125,000	30	17.1%	16.4%	11.0%
Rhwng £125,001 a £150,000	34	19.4%	18.6%	12.5%
Rhwng £150,001 a £180,000	32	18.3%	17.5%	11.7%
Rhwng £180,001 a £210,000	19	10.9%	10.4%	7.0%
Rhwng £210,001 a £240,000	22	12.6%	12.0%	8.1%
Rhwng £240,001 a £270,000	10	5.7%	5.5%	3.7%
Rhwng £270,001 a £300,000	9	5.1%	4.9%	3.3%
Rhwng £300,001 a £330,000	3	1.7%	1.6%	1.1%
Mwy na £330,000	8	4.6%	4.4%	2.9%
Cyfanswm ymatebion	175	100.0%	95.6%	64.1%
Dim ymateb	98			35.9%
Dim ymateb gan berchnogion preswyl	8		4.4%	



Cafwyd 175 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 64.1% a chyfradd ymateb o 95.6% ar gyfer y rhai hynny a nododd mai ei deiliadaeth bresennol oedd perchnogion preswyl yn C4a. Roedd yn gwestiwn un dewis.

Roedd y pris prynu cymedrig ar gyfer eiddo newydd yn yr ystod £150,001 i £180,000. Er na ellir cynnal cymhariaeth benodol gan fod gwahaniaethau yn y cyfnod o amser, methodoleg a dadansoddiad, y pris tŷ cymedrig ar gyfer pob eiddo a werthwyd ym Mwrdeistref Sirol Conwy rhwng mis Ionawr 2012 a mis Rhagfyr 2016 oedd £145,000 (ffynhonnell: Set data pris a dalwyd y Gofrestrfa Tir). Mae'r dystiolaeth hon a thystiolaeth arall yn awgymu fod tueddiadau marchnad dai ar gyfer tai newydd yn fwy costus na eiddo hŷn ar draws yr ystod tai cyfan.

Roedd y pris prynu cymedrig ar gyfer prynwyr tro cyntaf (C1d) yn is ar £125,001 i £150,000.

C11: Os ydych chi'n rhentu'r eiddo, nodwch faint rydych yn ei dalu bob mis

	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % o'r holl ddeiliadaeth rhent (C4)	Fel % yr holl ymatebion
Dan £100	1	1.6%	1.2%	0.4%
£100-£249	2	3.2%	2.4%	0.7%
£250-£349	7	11.1%	8.2%	2.6%
£350-£449	7	11.1%	8.2%	2.6%
£450-£549	15	23.8%	17.6%	5.5%
£550-£649	5	7.9%	5.9%	1.8%
£650-£999	14	22.2%	16.5%	5.1%
£1,000 +	12	19.0%	14.1%	4.4%
Cyfanswm ymatebion	63	100.0%	74.1%	23.1%
Dim ymateb	210			76.9%
Dim ymateb gan ddeiliadaeth rhent	22		25.9%	

Roedd 63 ymateb i'r cwestiwn hwn, gan roi cyfradd ymateb gyffredinol o 23.1% a chyfradd ymateb o 74.1% ar gyfer y rhai hynny a nododd mai ei deiliadaeth dai bresennol oedd naill ai rhent preifat neu rent cymdeithasol yn C4a. Roedd yn gwestiwn ysgrifenedig.

Roedd maint y sampl ar gyfer y cwestiwn hwn a'r gyfradd ymateb yn isel, felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data hwn.

Mae rhai o'r ffigyrau isel yn gyfansymiau ar ôl Budd-dal Tai Gallai rhai o'r ffigyrau isel fod yn gyfansymiau rhent wythnosol, gan y galli rhywfaint o ddryswch wedi bod wrth ysgrifennu'r ateb.

Roedd pedwar ar ddeg o'r pymtheg rhent uchaf (yn amrywio o £830 o £1,300 y mis) ar gyfer ymatebwyr a oedd yn byw mewn tai gofal ychwanegol, ac yn cynnwys cost gofal a thaliadau gwasanaeth yn ogystal â rhent.

Yr iaith Gymraeg

Gofynnwyd dau gwestiwn penodol am yr iaith Gymraeg yn yr arolwg. Roedd un yn gofyn am y prif ieithoedd a siaradwyd yn y cartref, a dau'n gofyn am sgiliau a lefelau gallu iaith Gymraeg aelodau unigol yr aelwydydd.

Q12: Pa ieithoedd sy'n cael eu siarad yn y cartref? (aelwydydd)

	Nifer	Fel % y rhai a atebodd y cwestiwn hwn	Fel % yr holl ymatebion	Fel % y rhai a atebodd y rhan A
Rhan A: prif iaith yn y cartref				
Saesneg	232	85.9%	85.0%	
Cymraeg	33	12.2%	12.1%	
Arall	5	1.9%	1.8%	
Cyfanswm ymatebion	270	100.0%	98.9%	
Dim ymateb	3		1.1%	
Rhan B: hefyd yn cael ei siarad yn y cartref				
Saesneg	26	32.9%	9.5%	9.6%
Cymraeg	46	58.2%	16.8%	17.0%
Arall	7	8.9%	2.6%	2.6%
Cyfanswm ymatebion	79	100.0%	28.9%	29.3%
Dim ymateb	194		71.1%	
Prif iaith neu hefyd yn siarad (ni fydd yn y cyfateb i 100%)				
Saesneg	258	95.6%		
Cymraeg	79	29.3%		
Arall	12	4.4%		

Cafwyd 270 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 98.9%. Roedd yn ddau gwestiwn un dewis.

Mae cyfanswm o 33 o'r aelwydydd a ymatebodd yn defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith yn y cartref a 46 arall yn defnyddio'r Gymraeg gartref ond nid fel prif iaith. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 79 aelwyd lle siaredir y Gymraeg – 29.3% o'r holl aelwydydd a ymatebodd i'r arolwg.

Yr ieithoedd eraill a siaredir gartref yw Pwyleg a Chroateg fel prif iaith a Chantoneg, Tieceg, Almaeneg, Gwyddeleg, Eidaleg, a Pherseg fel ieithoedd oedd 'hefyd yn cael ei siarad yn y cartref'.

O ble mae aelwydydd Cymraeg a Saesneg eu hiaith wedi symud?


	Siarad Cymraeg		Ddim yn siarad Cymraeg	
	Nifer	%	Nifer	%
Rhywle arall ym Mwrdeistref Sirol Conwy	49	62.0%	123	64.4%
Rhywle arall yng Ngogledd Cymru	22	27.8%	23	12.0%
Rhywle arall yng Nghymru	2	2.5%	2	1.0%
Rhywle arall yn y DU	6	7.6%	41	21.5%
Tu allan i'r DU	0	0.0%	2	1.0%
Cyfanswm aelwydydd	79	100.0%	191	100.0%

Aelwydydd lle siaredir y Gymraeg yw'r aelwydydd hynny lle mae'r Gymraeg yw prif iaith y cartref a'r rhai lle mae iaith arall yn brif iaith ond fod y Gymraeg hefyd yn cael ei siarad yn y cartref.

Nid yw'n syndod, mae aelwydydd lle siaredir y Gymraeg yn fwy tebygol o fod wedi symud o fewn Cymru (yn cynnwys o fewn y Fwrdeistref Sirol including ei hun) nag aelwydydd lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad.

C12b: Pa sgiliau iaith Gymraeg sydd gan aelodau eich aelwyd?

	Deall Cymraeg	Siarad Cymraeg	Darllen Cymraeg	Ysgrifennu yn Gymraeg
Cyfanswm ymatebion	259	258	255	254
Dim ymateb	14	15	18	19
Cyfradd ymateb	94.9%	94.5%	93.4%	93.0%
Cyfanswm y bobl	526	520	515	512
Dim	184	226	270	299
Ychydig	175	142	116	91
Cymedrol	55	44	34	35
Rhugl	112	108	95	87
Dim	35.0%	43.5%	52.4%	58.4%
Ychydig	33.3%	27.3%	22.5%	17.8%
Cymedrol	10.5%	8.5%	6.6%	6.8%
Rhugl	21.3%	20.8%	18.4%	17.0%
Cymedrol neu rhugl	167	152	129	122
	31.7%	29.2%	25.0%	23.8%



Cafwyd 259 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 94.9%. Roedd hwn yn gwestiwn matrices grid a oedd yn gofyn am oedran pob aelod o'r aelwyd a lefel gallu ieithyddol ar gyfer pob un o'r gwahanol sgiliau Cymraeg. Darparwyd gwybodaeth ar gyfer cyfanswm o 526 o bobl, er na wnaeth pob un roi atebion i bob rhan o'r cwestiwn hwn.

Mae hefyd yn bosibl cynnig cymhariaeth ddangosol rhwng ffigyrau siaradwyr Cymraeg Cyfrifiad 2011 a chanfyddiadau'r arolwg hwn. Nid oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol oherwydd gwahanol ddiffiniadau a methodolegau casglu, ond mae'r Cyfrifiad yn rhoi data ynglŷn â sgiliau Cymraeg ar gyfer pob person tair oed a hŷn.

Sgiliau iaith Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Conwy, Cyfrifiad 2011

Ffynhonnell: Cyfrifiad y Boblogaeth 2011, Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

	Nifer	%
Pob person 3 oed a throsodd	111,724	
Dim sgiliau Cymraeg	67,716	60.6%
Yn deall Cymraeg llafar yn unig*	10,655	9.5%
Cyfanswm siaradwyr Cymraeg	30,600	27.4%
Yn siarad Cymraeg ond ddim yn ei darllen na'i hysgrifennu	4,603	4.1%
Yn siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn ei hysgrifennu	2,706	2.4%
Yn siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	23,063	20.6%
Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg	2,981	2.7%

Os, ar gyfer arolwg preswyliaid newydd 2017, y nodir 'siaradwyr Cymraeg' fel y rhai hynny sydd â sgiliau canolradd neu rugl o ran siarad Cymraeg, yna mae'r cyfraddau ar gyfer preswylwyr tai newydd a'r boblogaeth yn gyffredinol yn gymharol debyg – 29.2% (arolwg deiliadaeth newydd) o'i gymharu â 27.4% yng Nghyfrifiad 2011.

Gan ystyried dau gwestiwn yr arolwg gyda'i gilydd, mae modd edych i weld a yw siaradwyr Cymraeg yn cael cyfle i siarad Cymraeg yn y cartref. Mae 48.0% o siaradwyr Cymraeg cymedrol neu rugl yn defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith y cartref, gyda 34.9% arall yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith eilaidd. Nid yw 17.1% o'r siaradwyr Cymraeg cymedrol neu rugl yn siarad Cymraeg gartref.

Defnydd o'r Gymraeg gartref gan y rhai hynny gyda sgiliau iaith Gymraeg – bob oed

	Sgiliau iaith Gymraeg llafar			Siaradwyr Cymraeg (cymedrol a rhugl)
	Ychydig	Cymedrol	Rhugl	
Pawb sydd â sgiliau Cymraeg llafar	142	44	108	152
Cymraeg yn 'brif' iaith yn y cartref	5	3	70	73
	3.5%	6.8%	64.8%	48.0%
Cymraeg 'hefyd' yn cael ei siarad gartref	29	23	30	53
	20.4%	52.3%	27.8%	34.9%
Cyfanswm unrhyw Gymraeg a siaredir gartref	34	26	100	126
	23.9%	59.1%	92.6%	82.9%
Ni siaredir Cymraeg yn y cartref	108	18	8	26
	76.1%	40.9%	7.4%	17.1%

Dim ond crynodeb yw hwn o'r canlyniadau ar gyfer defnydd o'r Gymraeg. Mae modd gwneud dadansoddiad manylach (gan gynnwys yn ôl oedran aelodau'r aelwyd).

Nodyn ar dai Gofal Ychwanegol ac eiddo ymddeol eraill

Roedd y rhestr ddosbarthu ar gyfer yr arolwg hwn yn cynnwys 169 eiddo newydd a ddosbarthwyd fel tai gofal ychwanegol neu eiddo eraill a oedd â chyfyngiadau oedran ar breswyl¹ (ac yr ystyrir felly i fod yn 'llety ymddeol'). Roedd hyn yn 21% o'r holl arolygon a ddosbarthwyd.

Cyfraddau ymateb

	Nifer yr holiaduron a ddosbarthwyd	Ymatebion	Cyfraddau ymateb
Pob eiddo	803	273	34.0%
Nid eiddo Gofal Ychwanegol nac ymddeol	634	195	30.8%
Eiddo Gofal Ychwanegol ac ymddeol	169	78	46.2%
Gofal Ychwanegol	91	29	31.9%
Ymddeol	78	49	62.8%

Roedd cyfradd ymatebion trigolion yr eiddo hyn yn uwch na'r gyfradd ymateb gyffredinol – darparodd 46.2% o'r trigolion hyn ymateb, o'u cymharu â dim ond 30.8% ar gyfer eiddo eraill.

At ei gilydd, mae trigolion y mathau hyn o eiddo yn cyfrif am oddeutu un o bob tri o'r holl ymatebwyr er eu bod ond yn cyfrif am un o bob pump o'r holl eiddo y cysylltwyd â nhw.

Mae posibilrwydd i'r gyfran uchel hon o ymatebion gan drigolion mewn eiddo sydd wedi eu cyfyngu i breswyllo gan grwpiau oedran hŷn ogwyddo canlyniadau'r arolwg hwn, a chyfeirir at hyn dan bob isadran lle bo hynny'n briodol.

Sylwer: Nid yw pob preswilydd hŷn mewn eiddo newydd mewn llety Gofal Ychwanegol nac mewn eiddo ymddeol, a bydd grwpiau o bobl hŷn wedi'u cynrychioli mewn mathau eraill o dai hefyd.

¹ Mae tai gofal ychwanegol yn fath o dai cymdeithasol sy'n cyfuno llety gyda gwasanaethau gofal a chymorth. Mae trigolion yn byw yn eu heiddo hunangynhwysol eu hunain, ond mae staff gofal a chymorth ar gael ar y safle 24 awr y dydd. Mae hefyd ganddynt fynediad at gyfleusterau a gwasanaethau cymunol fel llofa, ardal fwyta, a gerddi.

Mae gan dai ymddeol sydd ar gael drwy'r farchnad (yn hytrach na thai cymdeithasol) gyfyngiad oedran ar breswyl, ac fel rheol rhaid i drigolion fod yn hŷn na 55 neu 60 oed. Gwerthir y rhan fwyaf o dai ymddeol drwy lesddaliad, sy'n golygu y gall fod elfen 'rhent' i gostau tai yn ogystal â chostau morgais neu brynu ar gyfer perchnogion preswyl. Mae rhai eiddo hefyd yn cynnig gwasanaethau gofal a chymorth a mynediad i gyfleusterau cymunol am gost ychwanegol, er fod rhain yn amrywio o un cynllun i'r llall.

Cymariaethau gydag arolwg deiliadaeth newydd 2011

Cynhaliwyd arolwg tebyg yn ystod hydref 2011. Er bod gwahaniaethau o ran geiriad neu gynllun rhai cwestiynau, a bod y dadansoddiad wedi ei wneud mewn ffordd wahanol, mae'r tablau isod yn cynnig cymhariaeth sylfaenol rhwng canlyniadau 2011 a'r arolwg diweddaraf.

Bydd canlyniadau canrannol ar gyfer 2011 yn wahanol i'r hyn a gyflwynir yn adroddiad gwreiddiol 2011, gan eu bod wedi eu haddasu i ddileu'r 'dim ymatebion', er mwyn cyfateb y fethodoleg ar gyfer adroddiad 2017.

Dilysu

	2011	2017
Dosbarthwyd cyfanswm yr holiaduron dilys	1,235	803
Cyfanswm ymatebion dilys	412	273
Cyfradd ymateb	33.4%	34.0%

Dosbarthwyd rhagor o holiaduron yn 2011 gan fod rhagor o anheddau newydd wedi eu codi yn y cyfnod blaenorol o bum mlynedd. Roedd cyfraddau ymatebion ychydig yn well yn 2017.

Ynglŷn â'r eiddo

Pryd gafodd eich eiddo ei adeiladu / Pryd wnaethoch chi symud i'r eiddo

Ni ellir cymharu ymatebion i'r cwestiynau hyn dros amser.

Ai chi yw preswlydd cyntaf yr eiddo?		
	2011	2017
Cyfanswm ymatebion	404	272
Ie	80.4%	77.2%
Na	19.6%	22.8%

Ydych chi'n prynu am y tro cyntaf?		
	2011	2017
Cyfanswm ymatebion	406	270
Ydw	12.3%	10.0%
Nac ydw	87.7%	90.0%

Mae gostyngiad yn nifer a chyfran y prynwyr tro cyntaf yn 2017 o'u cymharu â 2011. Gallai hyn fod yn adlewyrchiad o'r math o eiddo sydd wedi bod ar gael, a hefyd yn gysylltiedig â materion fforddiadwyedd.

Ble ydych chi'n byw rŵan / ble oeddech chi'n arfer byw

Ym mha fath o eiddo ydych chi'n byw rŵan?		
	2011	2017
Cyfanswm ymatebion	407	272
Tŷ ar-wahân	26.5%	30.9%
Tŷ lled ar-wahân	10.3%	12.1%
Tŷ teras	10.1%	8.5%
Fflat	46.7%	39.0%
Byngalo	4.2%	7.0%
Arall	2.2%	2.6%

Ym mha fath o eiddo oeddech chi'n arfer byw ynddo?		
	2011	2017
Cyfanswm ymatebion	405	263
Tŷ ar-wahân	32.3%	27.4%
Tŷ lled ar-wahân	19.8%	25.9%
Tŷ teras	13.6%	8.4%
Fflat	13.1%	17.1%
Byngalo	18.0%	17.5%
Arall	3.2%	3.8%

Mae'r gyfran uchel o fflatiau newydd yn 2011 yn sgil y nifer uwch o eiddo ymddeol yn y stoc o gartrefi newydd.

Faint o ystafelloedd gwely sydd yn eich eiddo presennol?		
	2011	2017
Cyfanswm ymatebion	403	269
1 ystafell wely	9.7%	11.7%
2 ystafell wely	42.7%	39.2%
3 ystafell wely	26.3%	26.7%
4 ystafell wely	15.6%	18.3%
5+ ystafell wely	5.7%	2.6%

Faint o ystafelloedd gwely oedd yn eich eiddo blaenorol?		
	2011	2017
Cyfanswm ymatebion	391	263
1 ystafell wely	5.6%	11.8%
2 ystafell wely	30.2%	27.8%
3 ystafell wely	38.6%	36.1%
4 ystafell wely	20.7%	17.9%
5+ ystafell wely	4.9%	6.5%

Newid yn nifer yr ystafelloedd gwely		
	2011	2017
Cyfanswm ymatebion	391	262
Llai o ystafelloedd gwely	41.4%	36.3%
Dim gwahaniaeth	33.2%	36.3%
Mwy o ystafelloedd gwely	25.3%	27.5%

Deiliadaeth presennol		
	2011	2017
Cyfanswm ymatebion	405	272
Berchen ar yr eiddo	71.1%	67.3%
Rhentu'r eiddo gan landlord preifat	18.8%	13.2%
Rhentu'r eiddo gan gymdeithas tai neu'r Cyngor	8.9%	18.0%
Byw yn yr eiddo dan unrhyw drefniant arall	1.2%	1.5%

Deiliadaeth blaenorol		
	2011	2017
Cyfanswm ymatebion	401	257
Berchen ar yr eiddo	66.8%	65.4%
Rhentu'r eiddo gan landlord preifat	18.2%	21.4%
Rhentu'r eiddo gan gymdeithas tai neu'r Cyngor	3.7%	6.2%
Byw yn yr eiddo dan unrhyw drefniant arall	11.2%	7.0%

Newid deiliadaeth		
	2011	2017
Cyfanswm ymatebion	400	257
Yr un ddeiliadaeth	70.0%	70.0%
O rentu'n breifat i berchnogion preswyl	7.3%	8.2%
O berchnogion preswyl i rywbeth arall	8.5%	13.4%

Ni chyflwynwyd pob cyfuniad, felly ni fydd yn dod i gyfanswm o 100%

Bodolaeth nifer mwy o eiddo Gofal Ychwanegol yn y stoc o gartrefi newydd yw'r rheswm pennaf dros y cyfrannau uwch o bobl yn rhentu gan landlordiaid cymdeithasol yn 2017 o'u cymharu â 2011.

Pwy sy'n byw yn yr eiddo / Pwy oedd yn byw yn yr eiddo blaenorol?

Faint o bobl sy'n byw yn yr eiddo?		
	2011	2017
Cyfanswm ymatebion	395	268
Aelwyd 1 person	31.4%	37.3%
Aelwyd 2 berson	46.6%	37.7%
Aelwyd 3 pherson	11.1%	8.6%
Aelwyd 4 person	8.1%	13.4%
Aelwyd 5+ person	2.8%	3.0%
Maint cyfartalog yr aelwydydd (personnau)	2.05	2.09

Faint o bobl oedd yn byw yn eich eiddo blaenorol?		
	2011	2017
Cyfanswm ymatebion	376	254
Aelwyd 1 person	18.4%	21.3%
Aelwyd 2 person	47.3%	38.1%
Aelwyd 3 person	16.8%	19.4%
Aelwyd 4 person	12.8%	11.2%
Aelwyd 5+ person	4.8%	4.9%
Maint cyfartalog yr aelwydydd (personnau)	2.40	2.38

Mae nifer yr aelwydydd a symudodd i eiddo sy'n gartrefi newydd ychydig yn uwch yn 2017 nac yn 2011.

Faint o oedolion yn yr aelwyd sy'n gweithio ar hyn o bryd?		
	2011	2017
Cyfanswm ymatebion	220	124
Cyfanswm y bobl mewn gwaith	345	206
Amser llawn BS Conwy	49.9%	51.5%
Rhan amser BS Conwy	16.5%	13.6%
Amser llawn rhywle arall	28.1%	30.1%
Rhan amser rhywle arall	5.5%	4.9%
Households with at least 1 person working in Conwy County Borough	72.3%	76.6%

Roedd ymatebwyr i arolwg 2017 yn fwy tebygol o fod ag aelodau o'u haelwydydd yn gweithio o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy nac yn 2011.

Ynglŷn â symud i'r eiddo

Ble oeddech chi'n byw ddiwethaf cyn i chi symud i'r eiddo hwn?		
	2011	2017
Cyfanswm ymatebion	404	272
Rhywle arall ym Mwrdeistref Sirol Conwy	57.4%	63.6%
Rhywle arall yng Ngogledd Cymru	18.1%	16.5%
Rhywle arall yng Nghymru	1.5%	1.5%
Rhywle arall yn y DU	21.8%	17.3%
Tu allan i'r DU	1.2%	1.1%

Os wnaethoch chi symud o'r tu allan i Gymru, ydych chi erioed wedi byw ym Mwrdeistref Sirol Conwy neu Chymru?		
	2011	2017
Cyfanswm ymatebion	91	37
Wedi byw ym Mwrdeistref Sirol Conwy	12.1%	24.3%
Wedi byw rhywle arall yng Nghymru	15.4%	10.8%
Heb fyw yng Nghymru	72.5%	64.9%

Roedd gostyngiad yn y nifer o bobl yn symud o rannau eraill o'r DU/ tu allan i'r DU yn 2017 o'i gymharu â 2011. Roedd yr ymatebwyr hyn yn 2017 hefyd yn fwy tebygol o fod wedi byw yn yr ardal o'r blaen na'u cymheiriaid yn 2011.

Beth oedd eich prif reswm dros symud i'ch eiddo newydd?		
	2011	2017
Cyfanswm ymatebion	398	271
Newid swydd/symud yn agosach i'r swydd	8.9%	8.1%
Wedi ymddeol i'r ardal	16.3%	14.0%
Angen symud i lety mwy	13.1%	15.5%
Angen symud i lety llai	14.1%	19.6%
Newid mewn statws teuluol (priodi, ysgaru ac ati)	13.9%	13.7%
Er mwyn bod yn agosach at berthnasau	7.2%	11.8%
Arall (ymateb ysgrifennu i mewn)	29.5%	35.1%
(gan gynnwys iechyd/symud i Ofal Ychwanegol)	(8.1%)	(9.6%)

Cwestiwn amlddewis oedd hwn, felly ni fydd y canrannau yn rhoi cyfanswm o 100%

A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref anabledd sy'n effeithio ar eich dewis o dai?

Ni holwyd y cwestiwn hwn yn 2011 felly nid oes modd cymharu.

Cost yr eiddo

Beth oedd cost y tŷ pan wnaethoch ei brynu?		
	2011	2017
Ystod prisiau canolrif	£180,001- £210,000	£150,001-£180,000

Nid oes modd cymharu'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn fanwl, gan fod categorïau wedi newid rhwng arolygon 2011 a 2017. Bydd gwahaniaethau rhwng pris canolrif yn cael eu pennu i raddau helaeth gan y math o eiddo a godwyd.

Os ydych chi'n rhentu'r eiddo, nodwch faint rydych yn ei dalu bob mis

Er yr holwyd y cwestiwn hwn yn arolwg 2011, ni ddadansoddwyd y data, felly nid oes modd cymharu.

Yr iaith Cymraeg

Pa ieithoedd sy'n cael eu siarad yn y cartref?

	2011	2017
Rhan A: prif iaith yn y cartref		
Cyfanswm ymatebion	409	270
Saesneg	88.8%	85.9%
Cymraeg	9.8%	12.2%
Arall	1.5%	1.9%
Rhan B: hefyd yn cael ei siarad yn y cartref		
Cyfanswm ymatebion	67	79
Saesneg	4.2%	32.9%
Cymraeg	12.0%	58.2%
Arall	0.2%	8.9%
Prif iaith neu hefyd yn siarad (ni fydd yn y cyfateb i 100%)		
Saesneg	92.9%	95.6%
Cymraeg	21.8%	29.3%
Arall	1.7%	4.4%

Pa sgiliau iaith Gymraeg sydd gan aelodau eich aelwyd?

Newidiodd y ffordd yr holwyd y cwestiwn hwn yn sylweddol rhwng arolygon 2011 a 2017, felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r canlyniadau.

Deall Cymraeg

	2011	2017
Cyfanswm ymatebion		259
Cyfanswm y bobl	681	526
Dim	38.3%	35.0%
Ychydig	31.4%	33.3%
Cymedrol	10.6%	10.5%
Rhugl	19.7%	21.3%
Cymedrol neu rhugl	30.2%	31.7%

Siarad Cymraeg


	2011	2017
Cyfanswm ymatebion		258
Cyfanswm y bobl	654	520
Dim	47.9%	43.5%
Ychydig	24.6%	27.3%
Cymedrol	7.8%	8.5%
Rhugl	19.7%	20.8%
Cymedrol neu rhugl	27.5%	29.2%

Darllen Cymraeg

	2011	2017
Cyfanswm ymatebion		255
Cyfanswm y bobl	648	515
Dim	53.7%	52.4%
Ychydig	20.5%	22.5%
Cymedrol	8.2%	6.6%
Rhugl	17.6%	18.4%
Cymedrol neu rhugl	25.8%	25.0%

Ysgrifennu yn Gymraeg

	2011	2017
Cyfanswm ymatebion		254
Cyfanswm y bobl	639	512
Dim	60.4%	58.4%
Ychydig	17.8%	17.8%
Cymedrol	5.5%	6.8%
Rhugl	16.3%	17.0%
Cymedrol neu rhugl	21.8%	23.8%



Medi 2017

Holiadur tai newydd

Mae'r Cyngor yn y camau cyntaf o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol fel y cafodd ei fabwysiadu fis Awst 2013. Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy'n arwain datblygiadau yn y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol. Yn rhan o'r broses rydym angen gwybodaeth am dai newydd i'n helpu i asesu'r anghenion am dai a chyfleusterau eraill fel ysgolion, llyfrgelloedd, meddygfeydd, cyfleusterau manwerthu, a chanolfannau hamdden yn y dyfodol.


Mae hefyd angen i ni edrych ar effaith bosibl datblygiadau newydd ar gymunedau Cymraeg eu hiaith yn yr ardal.

Allwch chi ein helpu i gasglu'r wybodaeth hon drwy lenwi'r holiadur amgaeedig a'i ddychwelyd yn yr amlen barod erbyn 10 Tachwedd 2017.

Os nad ydych eisiau ateb yr holl gwestiynau, byddai holiadur wedi ei gwblhau'n rhannol yn dal i gael ei werthfawrogi.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch efo'r tîm Polisi Cynllunio Strategol. Ein rhif ffôn yw 01492 575171 a'n cyfeiriad e-bost yw cdll.ldp@conwy.gov.uk

Yn gywir



James Harland
Rheolwr Polisi Cynllunio Strategol

Gan ein bod yn anfon yr holiadur hwn i eiddo sydd newydd gael eu hadeiladu, efallai na fydd manylion yr holl gyfeiriadau yn gywir. Os oes unrhyw gamgymeriadau yn y cyfeiriad ar ben y dudalen hon, rhowch wybod i ni yn y bocs isod.



Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'i bartneriaid wedi ymrwmo i gynnwys pawb sydd â diddordeb ym Mwrdeistref Sir Conwy a byddwn yn gwneud hyn trwy wneud yn siŵr ein bod yn siarad â chi ac yn gwrandao arnoch, heb ofyn yr un cwestiynau drosodd a throsodd.

Felly, er na fyddwn yn rhannu eich data personol, efallai byddwn yn defnyddio'r syniadau a'r atborth a rowch i ni i gyfarwyddo prosiectau neu gynlluniau perthnasol eraill.

Holiadur tai newydd

Ticiwch y bocsys priodol, neu rhowch eich ateb yn y bocs ar gyfer pob cwestiwn.

Os nad ydych eisiau ateb yr holl gwestiynau, byddai holiadur wedi ei gwblhau'n rhannol yn dal i gael ei werthfawrogi.

Ynglŷn â'ch eiddo presennol

1a Pryd gafodd eich eiddo ei adeiladu / addasu?

1b Pryd wnaethoch chi symud i'r eiddo (blwyddyn)?

1c Ai chi yw preswlydd cyntaf yr eiddo?

Ie

Na

1d Ydych chi'n prynu am y tro cyntaf?

Ydw

Nac ydw

Ble ydych chi'n byw rŵan

2a Ym mha fath o eiddo ydych chi'n byw rŵan?

Tŷ ar-wahân ☐ Tŷ teras ☐
Tŷ lled ar-wahân ☐ Fflat ☐
Byngalo ☐ Arall ☐

Ble oeddech chi'n arfer byw

2b Ym mha fath o eiddo oeddech chi'n arfer byw ynddo?

Tŷ ar-wahân ☐ Tŷ teras ☐
Tŷ lled ar-wahân ☐ Fflat ☐
Byngalo ☐ Arall ☐

3a Faint o ystafelloedd gwely sydd yn eich eiddo presennol?

3b Faint o ystafelloedd gwely oedd yn eich eiddo blaenorol?

4a Ydych chi'n:

berchen ar yr eiddo? ☐
rhentu'r eiddo gan landlord preifat? ☐
rhentu'r eiddo gan gymdeithas tai neu'r Cyngor? ☐
byw yn yr eiddo dan unrhyw drefniant arall? ☐

4b Oeddech chi'n:

berchen ar yr eiddo blaenorol? ☐
rhentu'r eiddo blaenorol gan landlord preifat? ☐
rhentu'r eiddo blaenorol gan gymdeithas tai neu'r Gyngor? ☐
byw yn yr eiddo blaenorol dan unrhyw drefniant arall? ☐

5a Faint o bobl sy'n byw yn yr eiddo? (Rhowch y nifer yn y grwpiau oedran isod)

0-16 oed 50-64 oed
17-24 oed 65-74 oed
25-34 oed 75-84 oed
35-49 oed 85+ oed

5b Faint o bobl oedd yn byw yn eich eiddo blaenorol? (Rhowch y nifer yn y grwpiau oedran isod)

0-16 oed 50-64 oed
17-24 oed 65-74 oed
25-34 oed 75-84 oed
35-49 oed 85+ oed

6 Faint o oedolion yn y cartref sy'n gweithio ar hyn o bryd (rhowch y nifer yn y bocs isod)

Yn ardal Bwrdeistref Sirol Conwy

Amser llawn

Rhan amser

Y tu allan i ardal Bwrdeistref Sirol Conwy

Amser llawn

Rhan amser

Ynglŷn â symud i'r eiddo hwn

7a Ble oeddech chi'n byw ddiwethaf cyn i chi symud i'r eiddo hwn?

Rhywle arall ym Mwrdeistref Sirol Conwy

Rhywle arall yng Ngogledd Cymru

Rhywle arall yng Nghymru

Rhywle arall yn y DU

Os felly, rhowch enw'r dref, sir neu ranbarth yn y DU roeddech yn byw

Tu allan i'r DU

7b Os wnaethoch chi symud o ran arall o'r DU neu o'r tu allan i'r DU, ydych chi erioed wedi byw:

ym Mwrdeistref Sirol Conwy?

Do

Naddo

rhywle arall yng Nghymru?

Do

Naddo

8 Beth oedd eich prif reswm dros symud i'ch eiddo newydd?

Newid swydd/symud yn agosach i'r swydd

Wedi ymddeol i'r ardal

Angen symud i lety mwy

Angen symud i lety llai

Newid mewn statws teuluol (priodi, ysgaru ac ati)

Er mwyn bod yn agosach at berthnasau

Arall

Rhowch fanylion:

9 A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref anabledd sy'n effeithio ar eich dewis o dai?

Oes

Nac oes

Ddim am ddweud

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar allu'r person hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd-i-ddydd

Cost eich eiddo

10 Beth oedd cost y tŷ pan wnaethoch ei brynu?

Llai na £100,000

Rhwng £210,001 a £240,000

Rhwng £100,001 a £125,000

Rhwng £240,001 a £270,000

Rhwng £125,001 a £150,000

Rhwng £270,001 a £300,000

Rhwng £150,001 a £180,000

Rhwng £300,001 a £330,000

Rhwng £180,001 a £210,000

Mwy na £330,000

11 Os ydych chi'n rhentu'r eiddo, nodwch faint rydych yn ei dalu bob mis

Yr iaith Cymraeg

12a Pa ieithoedd sy'n cael eu siarad yn y cartref?

	Saesneg	Cymraeg	Arall
Prif iaith yn y cartref			
Hefyd yn cael ei siarad yn y cartref			
Os 'arall' rhowch fanylion:			

12b Pa sgiliau iaith Gymraeg sydd gan aelodau eich aelwyd?

Nodwch ateb ar gyfer pob person sy'n byw yn yr eiddo yn barhaol. Os oes mwy nag 8 person yn byw yn yr eiddo cysylltwch â ni am gopi arall o'r holiadur

Person:	P1	P2	P3	P4	P5	P6	P7	P8
Oedran Os yw person 1 (P1) n 27 mlwydd oed ysgrifennwch 27 yn y bocs P1 isod								
Deall Cymraeg (Am bob person, ticiwch un bocs yn unig)								
Dim								
Ychydig								
Cymedrol								
Rhugl								
Siarad Cymraeg (Am bob person, ticiwch un bocs yn unig)								
Dim								
Ychydig								
Cymedrol								
Rhugl								
Darllen Cymraeg (Am bob person, ticiwch un bocs yn unig)								
Dim								
Ychydig								
Cymedrol								
Rhugl								
Ysgrifennu yn Gymraeg (Am bob person, ticiwch un bocs yn unig)								
Dim								
Ychydig								
Cymedrol								
Rhugl								
Person:	P1	P2	P3	P4	P5	P6	P7	P8

Diolch i chi am gymryd amser i lenwi'r holiadur hwn. Anfonwch ef yn ôl atom drwy ddefnyddio'r amlen barod a ddarparwyd ar 10 Tachwedd 2017.

Arolwg tai newydd, Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU